UMPA
Cyfarfod Bwrdd Ymddiriedolwyr
16eg Chwefror 2018
Ystafell Bwyllgor

Yn bresennol
Bruce Fraser Wight (BFW) - Swyddog Datblygu'r Undeb, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr UMPA
Gwion Llwyd Williams (GLlW) - Swyddog Diwylliant Cymreig, Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr UMPA
Jesscia Williams (JW) - Swyddog Cyfleoedd Myfyrwyr ac Ymddiriedolwr UMPA
Molly-Jean Longden (MJL) - Swyddog Llesiant ac Ymddiriedolwr UMPA
Richard Matthews (RM) - Ymddiriedolwr Israddedig UMPA
Olymbia Petrou (OP) - Ymddiriedolwr Allanol UMPA
Peter Curran (PC) (skype) - Ymddiriedolwr Allanol UMPA

Yn bresennol
Trish McGrath (TM) - Prif Weithredwr UMPA
Annmarie Evans (AE) - Cynorthwy-ydd Gweithredol UMPA (yn cymryd cofnodion)

GWEINYDDIAETH Y CYFARFOD

1. **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
   Alan Roberts, Ryan Beasley ac Emma Beenham.

2. **Datganiadau o Fuddiannau**
   Ni chofnodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
   Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 21ain Tachwedd 2017 cyn belled â bod y cynigion a basiwyd yng Nghyngor yr Undeb yn cael eu rhestru.
   Cymeradwywyd

4. **Materion yn Codi**
   Recriwtio Ymddiriedolwyr Allanol
   Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷ n â ffyrdd y gallwn fynd ati i recriwtio amrywiaeth o aelodau i'r Bwrdd, ac yn ystod y drafodaeth cytunwyd ein bod yn cyflwyno ffurflen ar gyfer yr ymddiriedolwyr presennol i'w chwblhau a fydd yn rhoi manylion nodweddion a warchodir. Bydd PC yn anfon templed y gellir ei ddefnyddio.
   Nodwyd

STRATEGAETH

5. i. Cyllid: Cyfrifon Rheolaeth

Esboniodd TM bod swm sylweddol o arian dros ben yn y cyfrifon oherwydd arbedion a wnaed yng nghyflogau'r Adran Gefnogaeth a Chynrychiolaeth. Eglurodd ymhellach nad oedd gennym Gydlynydd Academaidd a Gwirfoddoli na Chynghorydd Myfyrwyr am rai misoedd wrth recriwtio, a'n bod wedi gwneud arbedion yn sgil Swyddogion yn optio allan o Bensiynau.

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷ n â'r Polisi Gwariant Cyfalaf, yn benodol, faint o Gyfalaf y gellir ei wario heb Gymeradwyaeth yr Ymddiriedolwyr. Cytunodd y Bwrdd y byddent yn awyddus i adolygu hyn.

Gweithredu - TM

ii. Datganiadau Ariannol

Cytunodd y Bwrdd i arwyddo'r Datganiadau Ariannol hyd at fis Mehefin 2017. Roeddent yn hapus iawn â'r set o gyfrifon, a diolchodd y Bwrdd i'r holl staff am eu gwaith caled.

Cytunwyd

Cytunodd y Bwrdd hefyd i ddiddymu Cangen Fasnachu'r Cwmni. Dywedodd PC ei fod yn hapus i gynorthwyo â'r broses hon.

Cytunwyd

6. Adroddiad y Prif Weithredwr

Darparodd TM y Bwrdd ag adroddiad manwl am weithgareddau UMAber ers y cyfarfod diwethaf. Roedd yn cynnwys Cyllidebu, Staffio / Adnoddau Dynol, gwaith ar Gydraddoldeb Hiliol, Arolwg Staff y Brifysgol ar yr Undeb, Cynrychiolaeth Academaidd, y gwasanaeth Cynghori, Democratiaeth, Etholiadau, Gwirfoddoli, Tîm Aber, Digwyddiadau Cyfleoedd Myfyrwyr, Ail Ffair y Glas, Gwobrau / Wythnos Ddathlu a Hyfforddiant Datblygu Myfyrwyr.

6.i. Cyflwyniad Blynyddol

Dangosodd TM gopi i'r Bwrdd o'r Adroddiad Cyfamserol ar y Cyflwyniad Blynyddol a ddarparwyd ar gyfer Cyfarfod Bwrdd Academaidd y Brifysgol.

Nodwyd

6.ii. Adeiladu ar gyfer y dyfodol

Eglurodd TM i'r Bwrdd fod Is-Ganghellor y Brifysgol wedi gofyn i'r UM ystyried adroddiad ar sut beth yw Undeb y Myfyrwyr sy'n addas i'r pwrpas. Gofynnodd TM i'r Bwrdd ystyried yr adroddiad i'w gyflwyno i'r Brifysgol. Roedd y Bwrdd yn fodlon cefnogi'r adroddiad gan ystyried y canlynol:

- Cynnwys adran pwyntiau bwled ar ddiwedd yr adroddiad yn rhestru hyn yr ydym ei eisiau
- Esbonio ein bod am gael rheolaeth lawn o'r adeilad ynghyd â chyfiawnhad dros hynny
- Rydym am gael sylw amlwg yn y Strategaeth Ystadau gydag arwydd clir o sut y caiff hyn ei ariannu

6.iii. Risg Gwirfoddoli a Chynllun Cyfamserol

Cyflwynodd TM gynllun cyfamserol i'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth o Gyfleoedd Gwirfoddoli UMAber yn unol ag Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus.
Cytunwyd

7. **Dangosyddion Perfformiad Allweddol**
   Nododd y Bwrdd y Dangosyddion Perfformiad Allweddol diwygiedig a ddarparwyd, a chroesawyd y gwelliannau a wnaed.
   Nodwyd

8. **Cymeradwyo Ymddiriedolwyr Allanol**
   Cymeradwywyd PC fel Ymddiriedolwr Allanol am ail gyfnod yn y rôl.
   Cytunwyd

9. **Unrhyw fater arall**
   Cau dros y Nadolig - fel sydd wedi digwydd mewn blynyddoedd blaenorol, cymeradwyodd y Bwrdd 3 diwrnod ychwanegol o wyliau ar gyfer UMAber yn ystod wythnos y Nadolig.

10. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**
    Dydd Iau 26ain Ebrill am 1pm